Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 01.06.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Dyfodol arolygiadau oedolion – Rhan dau** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn cefnogi symudiad Gwasanaethau Prawf AEM tuag at:

- sicrhau ymagwedd deg a chymesur at arolygu amrywiaeth;
- canolbwyntio ar effaith Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf (UCGPau) ar wella cynnydd tuag at ddeilliannau; ac
- ymgysylltu â phobl ar brawf i lywio barnau arolygu.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**CWESTIWN – A yw'r ffordd arfaethedig o arolygu amrywiaeth yn deg a chymesur?**

Mae'r cwestiynau a gynigir gan y ddogfen i arolygwyr eu gofyn yn briodol i dîm arolygu allu ystyried tystiolaeth ar lefel strategol ac ar lefel defnyddiwr gwasanaeth, a llunio barnau yn ymwneud ag effeithiolrwydd ymagwedd UCGP i ymateb i anghenion amrywiol cleientiaid.

**CWESTIWN – A fydd y ffordd arfaethedig o arolygu amrywiaeth yn ysgogi gwelliant?**

Bydd y perthnasoedd arfaethedig rhwng gradd ar wahân arolygiad o ansawdd ymagwedd UCGP at amrywiaeth a'i harweinyddiaeth yn annog arweinwyr i fynd i'r afael ag amrywiaeth ar lefel strategol a gwerthuso effaith polisïau cysylltiedig.  Bydd yr ystyriaeth ar wahân o ran amrywiaeth yn pwysleisio'r pwysigrwydd y mae arolygu yn ei roi i'r mater hwn hefyd.

**CWESTIWN – A fydd yr ymagwedd arfaethedig at fesur cynnydd personoledig yn erbyn deilliannau yn helpu ysgogi gwelliant?**

Mae'r pedwar cwestiwn allweddol arfaethedig a fydd yn llywio barnau yn rhoi pwyslais clir a phriodol ar wella, ac ar werthuso effaith gwaith UCGP ar ddeilliannau.

**CWESTIWN – A fydd y safon arfaethedig yn ein galluogi i lunio barnau rhesymol ac amddiffynadwy am gynnydd digonol?**

Bydd y cwestiynau a'r arweiniad arfaethedig ar gyfer arolygwyr yn darparu tystiolaeth glir i lywio barnau ynghylch cynnydd yn erbyn deilliannau.  Hefyd, bydd yn annog UCGPau i feintoli, cofnodi a monitro cynnydd ac yn sicrhau y gall ddarparu tystiolaeth ar gyfer hyn mewn ffurf briodol.

**CWESTIWN – Pan fydd cynnal sefydlogrwydd yn ddisgwyliad rhesymol ac amddiffynadwy ar gyfer unigolyn ar brawf, a ddylem ni farnu bod hyn yn ddigonol, neu a ddylem ni bob amser ddisgwyl y bydd rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud?**

Gallai fod yna achosion unigol, yn enwedig lle gallai amgylchiadau bywyd unigolyn fod yn eithriadol o ddryslyd, pan ellid ystyried bod sefydlogrwydd yn gynnydd.  Fodd bynnag, dylid ystyried bod barn o'r fath yn eithriadol a dylid ei seilio ar dystiolaeth amddiffynadwy, er mwyn osgoi bod UCGP yn gweld sefydlogrwydd fel canlyniad derbyniol safonol.

**CWESTIWN – A ddylem ni raddio deilliannau pan fyddwn yn cyflwyno'r safon, neu a ddylem ni gronni data gwaelodlin yn gyntaf?**

Dylid graddio deilliannau o'r cychwyn, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd o fewn ymarferiad arolygu.  Ni fydd hyn yn atal meincnodi deilliannau i lywio gwelliant pellach.  Yn wir, bydd yn annog UCGPau i werthuso eu perfformiad eu hunain er mwyn llywio eu harfer eu hunain o ran cynllunio gwelliant.

**CWESTIWN – A fydd ein hymagwedd arfaethedig at ymgysylltu â phobl ar brawf yn darparu sylfaen ddibynadwy i lywio barnau arolygu?**

Ceir dadl gref dros roi cynnig ar ystod o ddulliau i ymgysylltu â phobl a gwerthuso effeithiolrwydd y rhain i wneud penderfyniadau mwy cadarn.  Efallai y bydd angen cyfuniad o ddulliau i wneud y cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau bod sampl o arolwg yn cynrychioli'r grŵp cleientiaid mewn ardal.  Byddai angen i arolygon testun ystyried y ffaith mai llythrennedd cyfyngedig sydd gan gyfran uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth.  Hefyd, byddai angen teilwra arolygon testun yn unol â dewisiadau iaith cleientiaid er mwyn osgoi gwyro canlyniadau yn amhriodol.  Gallai fod angen rhoi strategaethau ar waith i hwyluso cyfweliadau wyneb yn wyneb ar sail anffurfiol neu ffurfiol, ochr yn ochr â chynigion o'r fath, er mwyn ehangu sail y dystiolaeth a sicrhau dilysrwydd canlyniadau arolwg.  Mae arolygiaethau cyfiawnder eraill eisoes yn defnyddio dulliau cyfunol o gofnodi barn pobl, sy'n bwydo i'r farn am ansawdd a safonau darpariaeth.

Hefyd, er bod gwerth mewn gofyn i bobl beth yw eu barn am wasanaethau, mae gwerth hefyd mewn gwahodd pobl i roi atebion yn seiliedig ar feini prawf ffeithiol a allai fod yn ddefnyddiol i arolygwyr.

**CWESTIWN – Sut gallwn ni uchafu ymgysylltiad pobl ar brawf â'n hymagwedd arfaethedig?**

Gweler yr ateb uchod.